Cofnodion **CYFARFOD y CYNGOR** a gynhaliwyd yn hybrid nos Fercher, 19 Gorffennaf 2023, am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Miss C. L. Williams (Dirprwy Faer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Ms J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford ac A. Walker.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**37. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Ms J. L. McAlpine a D. Simmons.

**38. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a'i bwyllgorau a ganlyn i'w cymeradwyo fel cofndion cywir:

Cyfarfod Arbennig y Cyngor - 21 Mehefin 2023 - Cofnodion rhifau 19-22

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Cyfarfod y Cyngor - 21 Mehefin 2023 – Cofnodion rhifau 23-36

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Chamberlain-Jones a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 21 Mehefin 2023 – Cofnodion rhifau 4-6

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Chamberlain-Jones ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs M. A. Blakeley-Walker a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

**39. ADRODDIAD Y MAER**

Cyfeiriodd y Dirprwy Faer at y digwyddiadau y bu hi a'r Maer ynddynt yn ystod y mis diwethaf (dosbarthwyd y manylion gyda'r agenda), a chyfeiriodd yn benodol at ddigwyddiad elusennol 'Uno drwy Gerddoriaeth' Cyngor Tref yr Wyddgrug a oedd yn noson ddiwylliannol arddercheog, yn cynnwys canu gan blant o'r Wcráin.

Crybwyllodd y Dirprwy Faer seremoni Codi Baner Cyngor Sir Ddinbych i ddynodi 75 mlynedd o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol hefyd.

## 40. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A)

Cyfeiriodd y Dirprwy Faer at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion y taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

| Rhif taleb | Enw'r cyflenwr | Swm | Disgrifiad y nwyddau/gwasanaeth |
|---|---|---|---|
| 1526 | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol HW |
| 1646 | BT | 270.77 | Llinell ffôn a band eang |
| 1647 | HSBC | 10.55 | Ffioedd banc |
| 1526 | Tesco | 12.99 | Costau ffôn symudol HW |
| 1648 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 2,983.51 | Didyniadau talu wrth ennill mis Mai 2023 |
| 1649 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 4,737.10 | Didyniadau pensiwn a chyllido'r diffyg mis Mai 2023 |
| 1650 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,861.90 | Cyflogau net mis Mehefin 2023 |
| 1617 | Cyngor Sir Ddinbych | 753.00 | Ardrethi Annomestig y Swyddfa Ddinesig 2023/24 – taliad 3 o 10 |
| 1539 | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol GN |
| 1539 | Tesco | 12.99 | Costau ffôn symudol GN |
| 1657 | Homestart Sir Ddinbych | 2,000.00 | Cyllid ar gyfer menter HomeStart yn y Rhyl |
| 1658 | Cyngor am Fudd-daliadau | 3,500.00 | Swyddog Apeliadau 23/24 – taliadau 1 i 3 o 12 |
| 1659 | Cyngor ar Bopeth | 2,000.00 | Swyddog Effeithlonrwydd Ynni – taliad 1 o 4 |
| | **Cyfanswm taliadau** | **£24,148.81** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog y Cyfrif Hysbysiad 31 diwrnod | 252.67 |
| HSBC | Llog y Cyfrif Money Maker | 354.70 |
| HSBC | Llog ar Adneuo 7 diwrnod | 26.87 |
| HSBC | Llog ar Adneuo 7 diwrnod | 26.87 |
| HSBC | Llog ar Adneuo 7 diwrnod | 26.87 |
| HSBC | Llog ar Adneuo 7 diwrnod | 26.87 |
| HSBC | Llog ar Adneuo 7 diwrnod | 26.87 |
| | **Cyfanswm incwm** | **£741.72** |

## 41. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHEST CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017 ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr taliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w talu dros y mis nesaf) (dosbarthwyd gyda'r agenda).

| Rhif taleb | Cyflenwr | Manylion | Swm<br>£ |
|---|---|---|---|
| 1661 | Fingerprints Art Ltd (Racecraft Signs) | Diweddaru'r Bwrdd Rhestru Anrhydeddau | 264.00 |
| 1668 | Archwilio Cymru | Ffi'r archwiiad allanol 2021/22 | 200.00 |
| 1669 | Pottles Premier Plants Ltd | Planhigion haf 2023 | 11,320.40 |
| 1670 | Cyng. S. Feeney | Lwfansau Aelodau 23/24 (£156+£52) | 208.00 |
| 1671 R | Cyng. A. Walker | Lwfansau Aelodau 23/24 (£156+£52) | 208.00 |
| E 1672 S | Cyng. J. Hughes | Lwfansau Aelodau 23/24 (£156+£52) | 208.00 |
| O 1673 | Amazon UK | Papur llungopïwr | 170.00 |
| L 1674 V | Morrisons | Blodau i'r Rhyddfreiniwr Anrhydeddus | 15.00 |
| E 1675 R | Cymdeithas Cynghorau Tref Gogledd a Chanolbarth Cymru | Cinio i 4 cynrychiolydd yn y Cyfarfod Blynyddol | 80.00 |
| 1676 | Scottish Power | Trydau y goleuadau addurno 22/23 | 218.73 |
| P E | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£12,892.13** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r taliadau ar yr atodlen a'u llofnodi gan ddau gynghorydd.*

## 42. RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad ac at y Rhestr Cyflenwyr Cymeradwy cyfredol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i'r aelodau ei gymeradwyo.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r rhestr.*

## 43. ADOLYGU'R STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL 2023/24

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad ar y cyd â'r Swydd Ariannol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn gofyn i'r aelodau gymeradwyo'r strategaeth ddiwygiedig a'r awgrym i adneuo £85,000 am chwe mis gyda HSBC. Esboniodd Clerc y Dref ei bod yn gwneud synnwyr ariannol buddsoddi am gyfnod o 31 diwrnod yn hytrach na'r 7 diwrnod cyfredol gan fod y gyfradd llog yn cynyddu o 0.4% i 3.5%, ac mai £85,000 oedd yr uchafswm y gallai'r Cyngor Tref ei fuddsoddi heb wynebu risg.

Cynghorodd Clerc y Dref y byddai'r Swyddog Cyllid yn chwilio am gyfrif hysbysiad 31 diwrnod arall neu gyfleuster adneuo am gyfnod penodol gyda banciau eraill i gael yr enillion gorau heb wynebu risgiau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r strategaeth a chymeradwyo adneuo'r £85,000 mewn cyfrif Hysbysiad 31 diwrnod gyda HSBC.*

## 44. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL – ADRODDIAD CORFFORAETHOL BLYNYDDOL CYNGOR TREF Y RHYL 2022/23

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i'r aelodau ei ddiwygio/gymeradwyo.

Atgoffodd Clerc y Dref yr aelodau ei bod yn ofynnol cyhoeddi'r ddogfen yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru ac roedd yn dangos sut roedd y Cyngor Tref wedi cyfrannu at ei Nodau Llesiant ac at Gynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

Ychwanegodd Clerc y Dref ei fod wedi paratoi Cynllun drafft i'r aelodau ei ystyried.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *cymeradwyo'r Cynllun drafft fel Adroddiad Blynyddol y Cyngor Tref am y flwyddyn 2022/23.*

## 45. <u>EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD</u>

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

## 46. <u>CYNLLUN STRATEGOL Y DREF 2017 – 2022 CYNGOR TREF Y RHYL</u>

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad ar y cyd ganddo a'r Pwyllgor Strategol a Gweithredol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn cyfeirio at lwyddiant Cynllun 2017-2022 yn cyflawni ei weithredoedd.

I grynhoi, roedd y pwyllgor wedi adolygu'r ddogefn a phenderfynu fod 56 o'r 108 o weithredoedd ynddi wedi'u cyflawni, roedd 48 wrthi'n cael eu gweithredu a dim ond pedwar heb eu cyflawni hyd yma.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *fod yr aelodau'n cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Strategol a Gweithredol, gan alluogi paratoi adroddiad terfynol a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor Tref.*

## 47. <u>EITEM YCHWANEGOL: CADWYN Y MAER</u>

Adroddodd Clerc y Dref fod angen gwneud gwaith cynnal a chadw ar Gadwyn y Maer (glanhau, adnewyddu'r eurblatio a choler melfed newydd). Roedd wedi derbyn tri dyfynbris, gyda'r prisiau'n amrywio o £1,500 i £2,500.

Awgrymodd Clerc y Dref fod nawr yn amser da i anfon y gadwyn am waith cynnal a chadw gan fod y Cyngor Tref mewn cyfnod gwyliau yn ystod mis Awst, sy'n gyfnod tawelach o ran defnyddio'r gadwyn yn draddodiadol, a gofynnodd i'r aelodau awdurdodi bwrw ymlaen gyda hyn.

Cynghorodd Clerc y Dref, petai'r Maer neu'r Dirprwy Faer yn mynd i ddigwyddiadau tra bo'r gadwyn yn cael ei thrin, dylid gwisgo cadwyn y Dirprwy Faer.

Ar ôl trafodaeth ***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *gofyn i Glerc y Dref drefnu cyfarfod o'r Is-bwyllgor Digwyddiadau Dinesig a Chymdeithasol, lle gallai'r aelodau weld holl gadwyni blaenorol Cyngor Dosbarth Trefol y Rhyl a chadwyn gyfredol y Maer a rhoi awdurdod dirprwyedig i fwrw ymlaen yn ôl doethineb yr is-bwyllgor, gyda gwariant cymeradwy hyd at uchafswm o £2,500.*

**48. EITEM YCHWANEGOL: ETHOLIAD WARD CEFNDY**

Cynghorodd Clerc y Dref y byddai'r Hysbysiad Etholiad ar gael yfory ac y byddai'n ei anfon at yr holl aelodau er gwybodaeth ac yn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor Tref.

**49. EITEM YCHWANEGOL: SUL DINESIG**

Gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau hynny nad oeddynt wedi ateb y gwahoddiad gan y Maer i'r gwasanaeth Sul Dinesig wneud hynny gynted ag y bo modd, er mwyn galluogi cadw seddi yn yr eglwys a threfnu arlwyo ar gyfer y nifer cywir.

**50. EITEM YCHWANEGOL: RHYDDFREINIWR ANRHYDEDDUS Y RHYL MRS PATRICIA JONES**

Gofynnodd Clerc y Dref a oedd unrhyw aelodau mewn cysylltiad gyda Mrs Jones a gofynnodd yn garedig iddynt ofyn iddi ateb y gwahoddiad gan y Maer i'r gwasanaeth Sul Dinesig.

**51. CYFNOD GWYLIAU MIS AWST – DIRPRWYO PWERAU GWEITHREDOL**

Gofynnodd y Dirprwy Faer i'r aelodau gymheradwyo'r trefniadau i ddirprwyo Pwerau Gweithredol i Glerc y Dref mewn ymgynghoriad â'r cadeiryddion priodol yn ystod cyfnod gwyliau mis Awst, fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Materion Dinesig | - | Y Maer a/neu'r Dirprwy Faer |
| Materion Cynllunio | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio |
| Y Pwyllgor Strategol a Gweithredol | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Strategol a Gweithredol |
| Pob busnes arall | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol |

***PENDERFYNWYD*** *cadarnhau'r trefniadau.*

**52. DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Dirprwy Faer bod y cyfarfod wedi diweddu.

Y Maer: ……..……………………..

Dyddiad: …..……………………..